

Arolygiad Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda**

**Uned Breswyl Anabledd
Dysgu**

Dyddiad yr Arolygiad: 14 Mehefin 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Medi 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn:0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs:0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	15
5.	Y Camau Nesaf.....	17
6.	Methodoleg	18
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o'r gwasanaeth anableded dysgu ar 14 Mehefin 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), rheolwr arolygu cynorthwyol AGIC, ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut mae'r gwasanaeth anableded dysgu yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ni roddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau anableded dysgu, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Uned breswyl fach yw'r gwasanaeth, sy'n darparu gofal i hyd at bum claf ag anableddau dysgu. Mae'r uned yn rhan o wasanaethau anabledd dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae rheolwr uned, sy'n nyrs gofrestredig, yn gyfrifol am reoli'r uned o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn cael cefnogaeth gan dîm o staff, gan gynnwys nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn cael cymorth i aros yn iach ac i gymryd rhan yn eu hoff weithgareddau yn yr uned ac yn y gymuned leol.
- Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch a charedigrwydd.
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn mwynhau byw yn yr uned a bod y staff yn eu helpu i deimlo'n ddiogel.
- Roedd gan yr holl gleifion gynllun gofal ysgrifenedig a oedd yn amlinellu'r cymorth a'r gefnogaeth oedd eu hangen arnynt.
- Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion gofal y cleifion.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod trefniadau diogelu ar waith i'r cleifion ac aelodau o staff ar gyfer pob ffurf ar reoli ymddygiad yn gadarnhaol.
- Dylai'r broses ddiogelu roi manylion i staff ynghylch pam na wnaeth atgyfeiriadau gyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob pasbort iechyd ar gael ar ffurf papur rhag ofn y bydd unigolyn yn cael ei dderbyn i ysbyty cyffredinol mewn argyfwng.
- Dylid gwirio faint o gleifion y gall gwasanaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd eu derbyn er mwyn sicrhau nad yw lleoliadau anabledd dysgu'n cael eu defnyddio i leddfu pwysau gwelyau o fewn y gwasanaeth iechyd meddwl.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Roedd gan bob claf ei gynllun gofal ei hun. Roedd gwiriadau iechyd corfforol a gwaith monitro yn dda ond nid oedd pasbortau iechyd ar gael mewn fformat papur rhag ofn y byddai unigolyn yn cael ei dderbyn i ysbyty cyffredinol mewn argyfwng.

Roedd y cleifion yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn hoffi eu gwneud a thrwy gydol yr arolygiad gwelsom y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd.

Cawsom wybod y gall yr uned anabledd dysgu dderbyn cleifion weithiau o wardiau iechyd meddwl oherwydd nad oes digon o welyau ar eu cyfer. Nid yw hyn yn arfer priodol.

Casglodd y tîm arolygu safbwyntiau'r cleifion ynghylch y gofal a'r driniaeth a ddarperid yn yr uned breswyl drwy sgysiau wyneb yn wyneb â chleifion.

Cadw'n iach

Mae pobl yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofalyr am unigolion nad ydynt yn gallu gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Roedd cleifion yn yr uned yn cael cymorth i gadw'n iach ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau i hybu eu lles.

Roeddem yn falch i nodi bod meddyg teulu'n mynychu'r uned bob wythnos i adolygu a monitro anghenion iechyd corfforol y cleifion. Dywedodd uwch staff nyrsio wrthym fod cleifion yn yr uned hefyd wedi eu cofrestru gyda meddyg teulu a'u bod yn cael cymorth i weld deintydd ac optegydd yn unol â'u hanghenion. Gwnaethom edrych ar sampl o gynlluniau gofal tri chlaf a gwelsom

fod pob un ohonynt wedi derbyn gwiriadau iechyd blynyddol¹ gan eu meddyg teulu.

Roedd gan y cleifion basbortau iechyd ar waith pe baent yn cael eu derbyn i ysbyty cyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd pasbort iechyd mwyaf cyfredol pob claf ar gael ar ffurf copi caled; roedd yn cael ei ddiweddarau'n electronig ond nid oedd yn cael ei argraffu. Nid yw hyn yn briodol ar gyfer achos o fod angen y pasbort mewn argyfwng.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob pasbort iechyd ar gael ar ffurf papur rhag ofn y bydd unigolyn yn cael ei dderbyn i ysbyty cyffredinol mewn argyfwng.

Roedd gan gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain ac roedd ganddynt fynediad atynt drwy gydol y dydd. Roedd lolfeydd yn yr uned hefyd, lle'r oedd cleifion yn gallu treulio amser mewn distawrwydd i ffwrdd o'r cleifion eraill os oeddent yn dymuno. Roedd gardd breifat yn yr uned yr oedd cleifion yn gallu mynd ati'n rhwydd; roedd rhandir mewn un ardd gyda thwnnel polythen. Roedd cleifion yn gallu mynd at gyfleusterau'r uned a'r ardal leol, ac roedd y staff yn eu helpu yn ôl yr angen. Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cymorth gan y staff a'u bod yn mwynhau mynd i'r gymuned i wneud gweithgareddau cymdeithasol.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod ac yn ymdrin ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1 – Gofal Gydag Urddas)

Gwelsom fod cleifion yn yr uned yn cael eu trin â pharch ac urddas gan y staff sy'n gweithio yno.

Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch a charedigrwydd. Lle'r oedd y cleifion wedi bod yn byw yn yr uned ers peth amser, roedd gan y staff ddealltwriaeth

¹ Cyflwynwyd gwiriad iechyd blynyddol Cymru ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yng Nghymru ym mis Ebrill 2006 er mwyn darganfod problemau iechyd pobl ag anableddau dysgu yn gynt a darparu triniaeth well iddynt.

dda o'u hoffterau a chasbethau unigol yn ôl pob golwg. O ran cleifion a oedd wedi cael eu derbyn yn fwy diweddar, roedd yn amlwg y byddai'r staff yn dod i adnabod eu hoffterau cyn gynted â phosibl.

Roedd gan yr holl gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain a oedd wedi eu personoli ar gyfer eu chwaeth a diddordebau. Gwelsom fod y staff yn parchu preifatrwydd cleifion cyn belled ag yr oedd modd. Gwelsom staff yn cnocio ar ddrysau ac yn gofyn i gleifion am ganiatâd i fynd i mewn i'w hystafelloedd. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn eu parchu ac yn garedig gyda nhw.

Roedd cleifion yn cael cymorth gyda'u hylendid personol yn ôl eu hanghenion, ac roedd yn ymddangos bod yr holl gleifion yn derbyn gofal da.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel. Gwelsom staff nyrsio'n rheoli ymddygiad cleifion â pharch ac mewn ffordd urddasol er mwyn hybu diogelwch a lles cleifion eraill a'r staff sy'n gweithio yn yr uned.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir.

Gwelsom fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu yn yr uned gan y tîm staff, ond er bod un claf yn barod i gael ei ryddhau o'r uned i leoliad yn y gymuned, nid oedd y tîm gofal wedi gallu canfod lleoliad addas iddo eto a fyddai'n diwallu anghenion penodol y claf. Roedd y bwrdd iechyd wedi adnabod y claf fel achos oedi wrth drosglwyddo gofal ac roedd yn chwilio am leoliadau addas.

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal dau glaf. Roedd y rhain yn dangos bod aelodau o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol wedi bod yn rhan o ofal a thriniaeth cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r rhain yn monitro cynlluniau gofal cleifion er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu nodi'n gynnar a bod gofal yn cael ei gynllunio i fynd i'r afael â'r rhain.

Roedd y cleifion yn rhan o'r gymuned ac yn treulio cyfnodau i ffwrdd o'r uned. Er bod y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn dweud eu bod yn hoffi byw yno, roedd nifer am ddychwelyd i fyw yn y gymuned. Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y cleifion a dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn rhoi cymorth iddynt yn ôl yr angen.

Ar adeg ein harolygiad, roedd un claf wedi cael ei drosglwyddo'n ddiweddar i'r uned anabledd dysgu o ward iechyd meddwl oherwydd nad oedd digon o welyau yn y ward iechyd meddwl i'w dderbyn. Nid oedd hwn yn achos unigryw a dyma oedd yr arfer hefyd pan wnaethom arolygu'r uned ddiwethaf yn 2015. Er i ni gael ein hysbysu y byddai'r bwrdd iechyd yn ystyried pa glaf fyddai'r mwyaf addas i'w drosglwyddo o'r ward iechyd meddwl, nid yw'n briodol symud cleifion oherwydd nad oes lle ar eu cyfer yn y gwasanaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar angen y claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu gallu'r gwasanaeth iechyd meddwl i sicrhau nad yw lleoliadau anabledd dysgu'n cael eu defnyddio i leddfu pwysau gwelyau o fewn y gwasanaeth iechyd meddwl.

Gofal unigol

Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1 – Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth)

Gwelsom fod gan gleifion yn yr uned eu cynllun gofal ysgrifenedig eu hunain. Roedd y rhain yn dangos bod eu hanghenion wedi cael eu hasesu, bod eu gofal a thriniaeth wedi eu cynllunio, a bod gofal wedi'i ddarparu gan y rhai a oedd yn rhan o'u gofal. Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal a thriniaeth fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.²

Roedd y cleifion yn rhan o'r gwaith o gynllunio eu gofal ac roedd cynlluniau gofal yn adlewyrchu anghenion, cryfderau a galluoedd y cleifion. Yn benodol, roedd cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a Lluniau Pen cleifion manwl iawn. Roedd asesiadau gofal iechyd corfforol manwl iawn wedi eu hadlewyrchu

² Cyfraith gan Lywodraeth Cymru yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a fydd yn helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl mewn pedair gwahanol ffordd.

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/measure/?lang=cy>

yn y cynlluniau gofal. Roedd proffiliau epilepsi ar waith ac wedi'u cwblhau ble yr oedd eu hangen.

Roedd y staff yn cynnwys cleifion yn eu gofal ac mewn penderfyniadau bob dydd megis prydau bwyd a gweithgareddau. Gwelsom y cleifion yn bod yn annibynnol trwy gydol yr arolygiad a bod y staff yn gefnogol iawn ac yn helpu'r cleifion pan oedd angen, yn seiliedig ar eu hanghenion gofal unigol.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2 – Hawliau Pobl)

Gwelsom fod gofal a thriniaeth cleifion yn yr uned yn cael eu darparu mewn ffyrdd a oedd yn sicrhau bod eu hawliau dynol yn cael eu diogelu.

Gwelsom staff yn parchu preifatrwydd cleifion ac yn rhoi dewis iddynt yn eu hamserlenni dyddiol. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Lle'r oedd dewisiadau cleifion wedi eu cyfyngu, gwelsom fod y rhesymau dros hyn wedi eu hysgrifennu yn eu cynlluniau gofal unigol. Roedd y cofnodion gofal a welsom yn dangos lle'r oedd cyfyngiadau ar waith o ran cadw cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal, fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3 – Gwrando a Dysgu o Adborth)

Nid oedd system ffurfiol ar waith yn yr uned i gasglu adborth gan gleifion a'u teuluoedd.

Disgrifiodd uwch staff dulliau anffurfiol ac *ad hoc* o dderbyn adborth gan gleifion a'u perthnasau am eu profiadau o'r gofal a ddarparwyd. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno system addas i gasglu adborth y gellir ei ddefnyddio gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth anableded dysgu.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion. Roedd angen gwelliannau i sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei gwblhau.

Roedd cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion maeth a hydradu gyda chyfraniad gan adran ddieteg neu ddietegydd a therapi lleferydd ac iaith y bwrdd iechyd.

Er i ni gael ein sicrhau bod y broses ddiogelu'n cael ei gweithredu yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd, teimlwyd nad oedd y staff yn derbyn adborth digonol o'r broses.

Gwnaethom leisio ein pryderon o ran yr arfer a gyfeiriwyd ato gan aelodau staff fel gwahaniad. Nid oedd y bwrdd iechyd yn gallu darparu polisi ar gyfer yr arfer hwn. Roedd yn peri pryder i ni ei bod yn ymddangos mai neilltuaeth yw'r arfer hwn er nad felly y cyfeirir ato.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1 – Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)

Roedd yr uned yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod, ac roedd staff yn wyliadwrus er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei gynnal. Roedd mannau'n rhydd rhag risgiau baglu gweladwy. Dywedodd y staff wrthym fod risgiau i ddiogelwch cleifion yn cael eu hasesu a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i leihau'r risgiau hyn cyn belled ag yr oedd modd. Gwelsom hefyd fod asesiadau risg wedi eu cwblhau o fewn y cynlluniau gofal a welsom.

Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n weddol ond roedd nifer o ardaloedd a oedd angen eu trwsio, fel ffenestr oedd wedi torri a oedd yn aros i gael ei thrwsio ym mhrif ardal y ward, a chypyrddau oedd wedi eu difrodi yn y gegin ac yn yr ystafell golchi dillad. Roedd aelodau o staff yn yr uned yn cynnal archwiliadau pwyntiau clymu ac roedd y rhain yn gyfredol ar adeg ein harolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i gwblhau'r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd heb ei gwblhau yn y gwasanaeth anableded dysgu. At hynny, mae'n rhaid i unrhyw waith yn y dyfodol gael ei gwblhau mewn da bryd.

Roedd offer dadebru'n cael eu cynnal a chadw yn y lleoliad pe bai argyfwng claf (llewygu) ac roedd diffibrilwr yn yr uned hefyd.

Mae pobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth a hydradu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5 – Maeth a Hydradu)

Gwelsom fod cleifion yn yr uned yn cael cymorth i fwyta ac yfed. Gwelsom gynlluniau gofal manwl a oedd yn nodi'r cymorth roedd ei angen ar gleifion er mwyn iddynt fwyta ac yfed. Roedd dietegydd a thîm therapi lleferydd ac iaith y bwrdd iechyd yn cyfrannu at waith yr uned.

Esboniodd y staff fod cleifion yn cael cymorth gan staff o ran dewis prydau bwyd, siopa am gynhwysion, a pharatoi prydau bwyd. Roedd cegin ar gael yn yr uned yr oedd cleifion yn gallu ei defnyddio gyda chymorth staff pan oedd angen. Roedd diodydd, byrbrydau a ffrwythau ar gael bob amser.

Roedd ystafell fwyta wedi ei haddurno'n ddymunol yn yr uned a oedd yn edrych yn gartrefol ac roedd y cleifion yn bwyta eu prydau ar fwrdd oedd wedi ei osod yn daclus.

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, ar yr amser cywir. (Safon 2.6 – Rheoli Meddyginiaethau)

Yn gyffredinol, gwelsom fod meddyginiaeth pobl yn cael ei rheoli'n ddiogel yn yr uned. Gwnaethom arsylwi ar arfer nodedig ar ffurf meddyg teulu'n mynychu'r uned bob wythnos (neu'n fwy rheolaidd yn ôl y gofyn) i asesu a monitro iechyd corfforol y cleifion.

Roedd ystafell benodol yn cael ei defnyddio ar gyfer storio'r meddyginiaeth a oedd yn cael ei defnyddio yn yr uned. Gwelsom fod hon yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, er mwyn rhwystro mynediad heb ganiatâd. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio mewn cypyrddau dan glo er diogelwch, fel y byddem yn disgwyl.

Roedd y gwaith o weinyddu meddyginiaeth yn cael ei gofnodi'n gywir yn y Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth a archwiliwyd gennym.

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7 – Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed)

Roedd gan staff fynediad at wybodaeth ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud i ddiogelu lles a diogelwch cleifion yn yr uned a dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym bod y staff yn eu helpu i deimlo'n ddiogel.

Disgrifiodd yr uwch staff nyrso'r broses y byddai disgwyl i'r staff ei dilyn pe baent yn darganfod problem o ran diogelu. Roedd hyn yn cyd-fynd â gweithdrefn Cymru gyfan ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Cawsom enghreifftiau gan aelodau o staff yn yr uned a'r rhai oedd yn mynychu'r uned fel rhan o gylch gwaith ehangach o'r adegau roeddent wedi defnyddio gweithdrefnau diogelu.

Yn ystod y sesiwn adborth gydag uwch aelodau staff y bwrdd iechyd, gwnaethom leisio rhai pryderon a gawsom gan y staff ynghylch yr hyn roeddent yn eu disgrifio fel anghysondebau ym mhroses ddiogelu'r bwrdd iechyd. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym eu bod yn teimlo y byddai rhai atgyfeiriadau'n cael eu hadolygu ond na fyddai atgyfeiriadau tebyg yn bodloni'r trothwy ar gyfer adolygiad.

Er i ni gael sicrwydd bod y broses ddiogelu'n cael ei chynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd, teimlwyd nad oedd aelodau o staff yn derbyn adborth digonol am y rhesymau pam nad oedd atgyfeiriadau'n bodloni'r trothwy ac yn cael eu harchwilio'n fanylach gan y tîm diogelu. Byddai'n fuddiol i'r broses ddiogelu pe bai aelodau o staff yn derbyn manylion ynghylch pam nad oedd atgyfeiriadau'n bodloni'r trothwy ar gyfer ymchwiliad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'n cynnwys digon o adborth i'r unigolyn sy'n atgyfeirio ynghylch y rhesymau pam nad yw atgyfeiriad diogelu'n cael ei ymchwilio.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1 – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol)

Gwelsom fod gan gleifion yn yr uned gynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac roedd y rhain wedi eu teilwra ar gyfer yr unigolyn. Roedd y rhain yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio i sicrhau bod cleifion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed y gellid ei osgoi.

Dywedwyd wrthym fod disgwyl i aelodau staff fynychu hyfforddiant a oedd wedi'i drefnu gan y bwrdd iechyd ac roedd graddau cwblhau hyfforddiant yn uchel.

Pe bai cleifion am dreulio amser i ffwrdd o gleifion eraill, byddai'r staff yn eu hannog i ddefnyddio'u hystafelloedd gwely neu fannau cymunol tawel i ffwrdd o gleifion eraill ar yr uned.

Gwelsom fod cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn cael eu defnyddio. Mae'r rhain yn helpu staff i nodi pryd mae angen cymorth ar gleifion i reoli ymddygiad y gallai pobl eraill ei ystyried yn heriol. Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion pob claf unigol ac fe'u gwelsom yn helpu cleifion i fod yn ddiogel ac i leihau unrhyw deimladau o orbyrder.

Gwnaethom leisio ein pryderon o ran yr arfer a gyfeiriwyd ato gan aelodau staff fel gwahaniad. Pan oedd angen, er diogelwch y cleifion ac aelodau o staff, roedd cynllun ar waith i sicrhau nifer o ystafelloedd cyffiniol lle gellid cadw claf i ffwrdd o gleifion eraill. Roedd yn amlwg bod staff yn cymryd camau i ddiogelu'r claf trwy gofnodi achosion o wahaniad, ynghyd ag amser dechrau a hyd y cyfnod o wahaniad. Byddai achosion o wahaniad hefyd yn cael eu cofnodi ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad nid oedd y bwrdd iechyd yn gallu darparu polisi ar gyfer yr arfer hwn yr oeddent yn cyfeirio ato fel gwahaniad. Heb bolisi addas yn disgrifio'r arfer hwn, ni cheir y mesurau diogelu digonol a ddylai fod ar waith ar gyfer cleifion ac aelodau o staff.

Yn ystod sesiwn adborth yr arolygiad, cytunodd y bwrdd iechyd y byddai'r arfer hwn yn cael ei adolygu ac y byddai polisi priodol yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod cleifion ac aelodau o'r staff yn cael eu diogelu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi i ddiogelu cleifion a staff wrth ymgymryd â'r holl gamau gweithredu i reoli ymddygiad cleifion.

Wrth gyfathrebu â phobl, dylai gwasanaethau iechyd ddiwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2 – Cyfathrebu'n Effeithiol)

Cafodd anghenion cyfathrebu cleifion eu cofnodi mewn cynlluniau gofal unigol. Dywedwyd wrthym fod staff yn siarad â chleifion i'w helpu i ddeall penderfyniadau am eu gofal. Yn ddibynnol ar anghenion unigol claf, gwnaethom nodi hefyd y byddai staff yn defnyddio cymhorthion gweledol i'w helpu i gyfathrebu.

Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol. (Safon 3.5 – Cadw Cofnodion)

Roedd cofnodion a ddefnyddid yn yr uned yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn rhwystro pobl heb awdurdod rhag eu darllen. Roedd yr holl gofnodion cleifion yn electronig gyda ffeiliau papur i hwyluso mynediad atynt.

Er inni weld cynlluniau gofal manwl, roedd y cofnodion gan y staff yn anghyflawn ac yn anghyson; roedd darnau o wybodaeth heb ddyddiad ac roedd rhai asesiadau risg wedi mynd heibio i'w dyddiad adnewyddu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses ar waith ar gyfer sicrhau bod dogfennau gofal yn cael eu cadw'n gyfredol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cynnal safonau proffesiynol uchel wrth gwblhau cofnodion cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae strwythur rheoli a swyddi uwch-reolwyr yn y Gyfarwyddiaeth Anabledd Dysgu wedi newid. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ardal ddaearyddol fawr y mae'n anodd ei gwasanaethu gyda'r adnoddau staff presennol.

Gwelsom dîm staff ymroddedig â dealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion a oedd yn byw yn yr uned. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu siarad â'u rheolwyr am eu gwaith a gwnaethant gadarnhau bod goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd a gynigir, yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Anabledd Dysgu yn darparu gwasanaethau ar draws tair sir gyda nifer sylweddol o filltiroedd rhwng rhai o'r gwasanaethau. Nid oeddem yn hyderus bod y trefniant hwn a gwasgariad y staff yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion yn y gwasanaethau hyn, sy'n gymhleth ac yn ddyrys. Gwnaethom nodi hefyd bod nifer gyfyngedig o nyrsys a staff a hyfforddwyd ym maes anabledd dysgu ymysg yr uwch-reolwyr, ynghyd â diffyg staff cymorth amlddisgyblaethol allweddol, sy'n gwneud hyn yn faes heriol i weithio ynddo o ran cael gafael ar wybodaeth arbenigol.

Dywedodd staff yr uned wrthym fod nifer o newidiadau ar lefel yr uwch-reolwyr wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi achosi peth ansicrwydd a diffyg eglurder o ran cyfeiriad y gwasanaethau yn y dyfodol, ac mae'r newidiadau hyn wedi golygu oedi ar adegau wrth wneud penderfyniadau. Dangoswyd copi i ni o'r strwythur rheoli ar gyfer y gwasanaeth anabledd dysgu a gwnaethom nodi ei fod yn ymddangos yn gymhleth iawn.

Dangosodd y siart strwythur fod yr uwch-reolwyr yn ceisio gosod strwythurau er mwyn mynd i'r afael â diffygion llywodraethu ac arweinyddiaeth, ond roedd yr adborth a gawsom gan staff yr uned yn awgrymu nad oedd yr uned eto'n cael elw o'r strwythurau hyn. Nid yw'n glir, felly, ai'r strwythurau yw'r modd iawn o sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf mewn uned heriol gyda chleifion heriol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod y strwythur rheoli'n ddigonol i gefnogi anghenion y gwasanaeth. Adolygu'r siart strwythur er mwyn sicrhau bod staff yr uned yn deall pwysedd mewn swyddi arwain o fewn y Gyfarwyddiaeth Anabledd Dysgu.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion. (Safon 7.1 – Y Gweithlu)

Roedd rheolwr nyrsio'n gyfrifol am reoli'r uned o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth tîm o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd cymwys. Roedd yr uned yn cael cefnogaeth gan dîm amlddisgyblaethol gwasanaeth anabledd dysgu'r bwrdd iechyd.

Roedd yn ymddangos bod digon o staff yn gweithio a oedd yn meddu ar y sgiliau cywir i ddiwallu anghenion cleifion yn yr uned. Nid oedd yr uned yn defnyddio staff asiantaeth ac roedd dibyniaeth gyfyngedig ar staff banc y bwrdd iechyd.

Trwy sgysiau gydag aelodau o staff, roedd yn amlwg eu bod yn deall anghenion y cleifion yn dda iawn. Roedd y staff yn hyblyg iawn gyda'u patrymau gwaith er mwyn galluogi cleifion i wneud gweithgareddau cymunedol yn ystod y dydd, gyda'r nos, ac ar benwythnosau. Roedd nifer y lleoedd gwag yn yr uned wedi gostwng ers ein harolygiad blaenorol ac roedd hyn wedi creu sefydlogrwydd i'r tîm staff ac wedi darparu gofal cyson i'r cleifion.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod myfyrwyr nyrsio wedi bod yn yr uned ar leoliadau, a dywedodd myfyriwr wrthym ei fod yn mwynhau gweithio yn yr uned gyda'r staff a'r grŵp cleifion.

Gwnaethom wahodd staff i rannu eu barn ynglŷn â gweithio yn yr uned. Dywedodd y staff fod cyfathrebu ymhlith y tîm yn dda iawn, a'u bod yn teimlo bod modd trafod materion yn agored.

Roedd y staff wedi cwblhau arfarniadau blynyddol, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i drafod materion sy'n gysylltiedig â'u gwaith gyda'u rheolwr. Roedd cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol yn cael eu cynnal yn yr uned ac roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos y broses hon.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth anabledd dysgu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwasanaeth anabledd dysgu yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau anabled dysgu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Uned Breswyl (Cyf 16161)

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mehefin 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob pasbort iechyd ar gael ar ffurf papur rhag ofn y bydd unigolyn yn cael ei dderbyn i ysbyty cyffredinol mewn argyfwng.	1.1	Sefyllfa bresennol Mae gan bob claf basbortau iechyd ond nid oedd eu pasbort iechyd mwyaf cyfredol ar gael ar ffurf copi caled ar adeg yr arolygiad.		
			Camau gweithredu hyd yn hyn Mae pob pasbort iechyd wedi cael ei argraffu ac yn cael ei gadw yn ffeiliau'r cleientiaid yn y brif swyddfa.	Pennaeth Anableddau Dysgu	Cwblhawyd
7	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu	5.1	Sefyllfa bresennol		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gallu'r gwasanaeth iechyd meddwl i sicrhau nad yw lleoliadau anabledd dysgu'n cael eu defnyddio i leddfu pwysau gwelyau o fewn y gwasanaeth iechyd meddwl.		Dair gwaith yn ystod y tri mis diwethaf cafodd cleifion heb anabledd dysgu eu trosglwyddo i Dŷ Tudor o wardiau iechyd meddwl oedolion. Fodd bynnag, fe all achosion godi pan nad oes dewis addas arall, a dim ond am y cyfnod lleiaf y bydd cleifion y gwasanaeth iechyd meddwl yn aros yn yr uned a bydd mewnbwn gan staff clinigol priodol yn cael ei ystyried ar sail claf unigol.		
			<p>Camau gweithredu hyd yn hyn</p> <p>Ysgrifennu at reolwyr gwasanaeth i leihau mynediad cleientiaid nad oes ganddynt anabledd dysgu i Dŷ Tudor gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru. Mae rheolwyr ar alwad wedi derbyn yr hysbysiad hwn hefyd.</p>	Pennaeth Anableddau Dysgu	Cwblhawyd
			<p>Camau gweithredu a gynlluniwyd</p> <p>Diweddarau meini prawf derbyn fel rhan o'r adolygiad o'r model cleifion</p>	Pennaeth Anableddau	30/09/16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			mewnol presennol.	Dysgu	
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i gwblhau'r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd heb ei gwblhau yn y gwasanaeth anabledd dysgu. At hynny, mae'n rhaid i unrhyw waith yn y dyfodol gael ei gwblhau mewn da bryd.	2.1	Sefyllfa bresennol Roedd ffenestr wedi torri a chypyrddau wedi eu difrodi yn ardal y gegin yn cael sylw gan reolwr y ward.		
			Camau gweithredu hyd yn hyn Mae ffenestr newydd wedi cael ei gosod yn lle'r un wedi ei difrodi yn yr ystafell wely. Mae cyfarfodydd bob yn ail fis wedi'u hailsefydlu rhwng rheolwr y ward, y rheolwr gwasanaeth a'r adran ystadau i fonitro a mynd i'r afael â materion ystadau a chynnal a chadw parhaus.	Pennaeth Anableddau Dysgu Rheolwr Gwasanaeth	Cwblhawyd 1/08/16
			Camau gweithredu a gynlluniwyd <ul style="list-style-type: none">Adolygu'r rhestr o'r holl atgyweiriadau a chamau gweithredu heb eu cyflawni.	Rheolwr Gwasanaeth Pennaeth	28/09/16 28/09/16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<ul style="list-style-type: none"> Uwchgyfeirio canfyddiadau i gyfarwyddwr cynorthwyol ystadau / cyfarwyddwr cynorthwyol iechyd meddwl ac anabledd dysgu a chytuno ar raglen waith. Bydd rheolwr y ward yn uwchgyfeirio unrhyw faterion cynnal a chadw brys y tu hwnt i'r cyfarfodydd bob yn ail fis i'r rheolwr gwasanaeth pan nad ydynt yn cael eu datrys mewn modd amserol. 	<p>Anableddau Dysgu</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	28/09/16
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'n cynnwys digon o adborth i'r unigolyn sy'n atgyfeirio ynghylch y rhesymau pam nad yw atgyfeiriad diogelu'n cael ei ymchwilio.	2.7	<p>Sefyllfa bresennol</p> <p>Nid oedd cleient a gafodd ei atgyfeirio at adran ddiogelu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach.</p>		
			<p>Camau gweithredu hyd yn hyn</p> <p>Mae'r staff wedi cael eu hysbysu am y penderfyniad diogelu.</p>	Pennaeth Anableddau Dysgu	Cwblhawyd
			<p>Camau gweithredu a gynlluniwyd</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Bydd yn ofynnol bod unrhyw ymarferydd cofrestredig sy'n mynychu cyfarfod diogelu ar ran y tîm yn rhoi adborth am y canlyniad a gwybodaeth berthnasol o'r cyfarfod, gan gynnwys y rhesymau a roddwyd ynghylch pam nad yw trothwyon ar gyfer atgyfeirio wedi cael eu bodloni.	Pennaeth Anableddau Dysgu	31/08/16
13	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi i ddiogelu cleifion a staff wrth ymgymryd â'r holl gamau gweithredu i reoli ymddygiad cleifion.	3.1	Sefyllfa bresennol Mae dealltwriaeth amrywiol o ran beth mae gwahaniad / neilltuaeth yn ei olygu yn yr uned. Mae hyfforddwr arweiniol y tîm rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gweithio'n agos gyda'r staff i'w haddysgu am yr arferion lleiaf cyfyngol.		
			Camau gweithredu hyd yn hyn Mae grŵp o weithwyr proffesiynol ar draws disgyblaethau wedi cael eu henwi er mwyn cynnal adolygiad o bolisi neilltuaeth y bwrdd iechyd.	Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd
			Camau gweithredu a gynlluniwyd		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<ul style="list-style-type: none"> Rhaid adolygu a diweddarau polisi neilltuaeth y bwrdd iechyd yn unol â chanllawiau cenedlaethol a NICE ynghylch arferion cyfyngol. Caiff staff eu hatgoffa a'u hyfforddi yn y defnydd o'r polisi neilltuaeth cyfredol. Cysylltu â rhwydweithiau anabledd dysgu lleol a chenedlaethol i nodi arfer gorau a llywio adolygiadau o'r polisi neilltuaeth. 	<p>Pennaeth Nyrso</p> <p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol</p> <p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol / Pennaeth Anableddau Dysgu</p>	<p>30/12/16</p> <p>30/09/16</p> <p>25/11/16</p>
14	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses ar waith ar gyfer sicrhau bod dogfennau gofal yn cael eu cadw'n gyfredol.	3.5	<p>Sefyllfa bresennol</p> <p>Cedwir cyfuniad o gofnodion papur ac electronig ar gyfer yr holl gleifion. Mae cyflwyno system cofnodion electronig ddiwygiedig (Care Partner) wedi dangos bod angen trosglwyddo cofnodion papur i ddogfennau Word, y gellir eu huwchlwytho wedyn i'r cofnod</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			electronig. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi sefydlu proses archwilio ar gyfer cynlluniau gofal a thriniaeth.		
			Camau gweithredu hyd yn hyn <ul style="list-style-type: none"> Adolygu safonau'r cofnodion a gedwir yn yr uned. 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
			Camau gweithredu a gynlluniwyd <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cofnodion yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gyflawni cynlluniau rheoli ymddygiad a chynlluniau gofal ac wrth bennu nodau cyfredol. Trefnu cyfarfodydd cyswllt clinigol rheolaidd rhwng y seiciatrydd ymgynghorol, meddyg arbenigol, meddyg teulu a staff Tŷ Tudor. Rheolwr y ward i fynd i'r afael â sgiliau cadw cofnodion amrywiol gyda'r staff yn ystod sesiynau goruchwyllo unigol. 	Ymgynghoryd / Cydgysylltydd Gofal Ymgynghoryd Rheolwr y Ward	07/11/16 10/08/16 10/08/16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
14	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn cynnal safonau proffesiynol o lefel uchel wrth gwblhau cofnodion cleifion.	3.5	Sefyllfa bresennol Mae'r holl staff nyrsio cymwys wedi derbyn hyfforddiant ar gadw cofnodion yn ystod y 12 mis diwethaf.		
			Camau gweithredu hyd yn hyn <ul style="list-style-type: none"> Mae safon y gwaith o gadw cofnodion yn yr uned wedi cael ei adolygu a bydd yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd. 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
			Camau gweithredu a gynlluniwyd Cynnal ail archwiliad o gofnodion clinigol yn unol â safonau cadw cofnodion y bwrdd iechyd.	Nyrs Arweiniol Broffesiynol	30/09/16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
16	Sicrhau bod y strwythur rheoli'n ddigonol i gefnogi anghenion y gwasanaeth. Adolygu'r siart	Llywodraethiant, arweinyddiaeth	Sefyllfa bresennol Rheolwr ward Band 7 yn cael cefnogaeth gan ddau arweinydd tîm		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	strwythur er mwyn sicrhau bod staff yr uned yn deall pwy sydd mewn swyddi arwain o fewn y Gyfarwyddiaeth Anabledd Dysgu.	th ac atebolrwydd	<p>Band 6.</p> <p>Mae goruchwyliaeth reolaidd yn digwydd gyda rheolwr y gwasanaeth i sicrhau y caiff pob pryder ei uwchgyfeirio.</p> <p>Mae rheolwr y ward yn mynychu'r grŵp cyfeirio aml-ddisgyblaethol, sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu yn y gwasanaeth, yn fisol. Mae rheolwr y ward hefyd yn mynychu'r cyfarfod busnes misol (Dangosfwrdd).</p> <p>Mae gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu fodel gweithredu a gytunwyd arno sy'n deillio o strwythur gwasanaeth diwygiedig.</p>		
			<p>Camau gweithredu hyd yn hyn</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd adolygiad o strwythur rheoli'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu a hysbyswyd yr holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth amdano. Cwblhawyd adolygiad o gymysgedd sgiliau'r tîm staff yn 	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu / Pennaeth y Gwasanaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Nhŷ Tudor.	Anabledd Dysgu Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu / Pennaeth y Gwasanaeth Anabledd Dysgu / Pennaeth Nyrsio	
			<p>Camau gweithredu a gynlluniwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cymorth rheoli ychwanegol wedi cael ei sicrhau ers 1 Medi i wella trefniadau llywodraethu i'r rheolwyr tîm a rheolwyr gwasanaeth. Bydd strwythurau eraill i gefnogi'r rheolwr gwasanaeth yn y gwaith o reoli'r unedau preswyl yn y gwasanaeth o 	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Cyfarwyddwr	01/09/2016 30/09/2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			ddydd i ddydd yn cynyddu gallu'r rheolwr gwasanaeth presennol i ganolbwyntio'n fwy manwl ar unedau cleifion mewnol.	Cynorthwyol lechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu	

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: